

# Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Dysgu mewn Cyflogaeth: Gwersi a Ddysgwyd  
Ebrill 2013



future directions  
for higher education in wales



cyfeiriadau'r dyfodol  
ar gyfer addysg uwch yng nghymru



# Rhagarweiniad

Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, Ar Gyfer ein Dyfodol (*Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 2009*), cytunodd cynrychiolwyr o bob un o'r prif randdeiliaid mewn addysg uwch ar thema wella wedi ei ffocysu ar gyfer Cymru – Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol – wedi ei hadeiladu o amgylch tri phrif faes gwaith: Dysgu er cyflogaeth, Dysgu mewn cyflogaeth a Myfyrwyr fel partneriaid. Lanswyd y meysydd gwaith yn swyddogol ym Mawrth 2011 a dechreuodd y tri grŵp drafod sut y gallent fanteisio orau ar flaengarwch ac ymarfer o'r sector. Ysgogodd bob un o'r meysydd gwaith gasgliad o astudiaethau achos a gyhoeddwyd gan yr Academi Addysg Uwch yn Ebrill 2012.

Cytunodd y rheiny oedd yn rhan o faes gwaith Dysgu mewn Cyflogaeth ar ddiffiniad o ddysgu mewn cyflogaeth a fyddai'n darparu digon o gyfle i gwmpasu'r nifer fawr o weithgareddau a drafodwyd gan yr aelodau. Cytunwyd ar ein diffiniad ymarferol fel a ganlyn: *Dysgu mewn cyflogaeth yw achredu rhan o raglen ddysgu myfyriwr, neu'r rhaglen gyfan, drwy gdnabyddiaeth ffurfiol o brofiad yn y gweithle.* Mae diddordeb mewn dysgu drwy gyflogaeth fel rhan o'r ddarpariaeth o addysg uwch yng Nghymru wedi tyfu'n raddol. Awgrymodd aelodaeth y maes gwaith y byddai'n ddefnyddiol llunio crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd ar sail ein harchwilad a'n profiad o achredu dysgu yn y gweithle, fel y gellid eu rhannu'n ehangach; rhywbeth a allai ffurfio sylfaen ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Nod y daflen hon, felly, yw disgrifio'r dysgu hanfodol mae cydweithwyr ar draws y sector AU yng Nghymru wedi ei nodi. Mae'r pwyntiau wedi cael eu trefnu i adlewyrchu'r themâu a gyflwynir yn ein cyhoeddiad arall sy'n cyd-redeg â hwn: 'Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol' thema wella: *Dysgu mewn Cyflogaeth*, sydd ar gael o:

[http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning\\_In\\_Employment\\_Welsh.pdf](http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning_In_Employment_Welsh.pdf)

## Profiadau dysgwyr

1. Mae angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r sgiliau cyflogadwyedd maent yn eu hennill, os ydynt yn cael eu dysgu ar wahân neu fel rhan annatod o'r cwricwlwm. Gyda dealltwriaeth o'u sgiliau, bydd gan fyfyrwyr fwy o hyder wrth gyfathrebu a chyd-drafod lleoliadau gyda chyflogwyr.
2. Mae angen i fyfyrwyr sydd mewn cyflogaeth a sy'n astudio yn y gweithle fod â gwell dealltwriaeth o Achrediad ar gyfer Dysgu Blaenorol ac ar sail Profiad (APEL) a sut y gellir troi dysgu ar sail profiad yn gredyd AU y gellir ei gasglu.
3. Mae amser yn y gweithle yn rhoddi mwy o hunan-ddibyniaeth a hyder i fyfyrwyr, sy'n caniatáu iddynt gymryd mwy o berchnogaeth dros eu datblygiad academiaidd a phersonol, ynghyd â chynyddu eu cyfle o ganfod swyddi.
4. Gall prosiectau ymchwil mewn graddau sylfaen ganiatáu i fyfyrwyr (e.e. Cynorthwy-wyr Cefnogaeth Dysgu) weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'u hadroddiadau ymchwil. Gall graddau sylfaen hefyd ganiatáu i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r cwrs i gynnig cefnogaeth i gyfoedion llai profiadol.
5. I fyfyrwyr sy'n ystyried gyrfa mewn ymchwil, mae cynlluniau sy'n cynnig cyfleoedd i ymuno â phrosiectau ymchwil wedi eu harwain gan staff o fewn rhaglenni israddedig, wedi bod yn boblogaidd iawn, ond mae i hyn ystyriaethau o ran cyllido.
6. Dylai rhaglenni a modylau eu gwneud yn angenrheidiol i fyfyrwyr adlewyrchu ar eu profiadau mewn cyflogaeth er mwyn dangos sut y gall dysgu wella eu perfformiad mewn cyflogaeth.

## Profiadau cyflogwyr

1. Mae sicrhau bod y cyflogwr a'r myfyriwr yn gweddu i'w gilydd yn effeithiol yn gallu bod y her, felly mae angen am broses gofalus o ddethol ymlaen llaw.
2. Gellir datblygu cyflwyniadau ar gyfer graddau sylfaen a mentrau Dysgu yn y Gweithle orau gyda mewnbwn gan fusnesau lleol, cynghorau sgiliau'r sector ac academyddion AU. Mae gweithio gyda chynghorau sgiliau'r sector yn arbennig yn rhoi mwy o ymwybyddiaeth i sefydliadau o ran datblygu darpariaeth sy'n seiliedig ar alw.

## Datblygiad ac asesiad prosiectau

1. Dylid asesu ceisiadau ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu (ag eithrio dilysu rhaglenni newydd) gan banel sy'n cynnwys uwch-reolwyr (Pro Is-Ganghellorion), cynrychiolwyr o bwyllgorau dysgu ac addysgu, Undebau Myfyrwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr.
2. Os yw prosiectau'n mynd i fabwysiadu dulliau e-ddysgu, mae anhawster aml mewn canfod staff sydd â'r sgiliau technegol ac addysgol angenrheidiol. Ynghyd â hyn, mae i bob prosiect fel arfer set o nodweddion unigryw, felly mae hyfforddiant ar lefel benodol i'r pwnc yn gwneud cryn alwadau ar yr unigolyn.
3. Mae angen briffio paneli dilysu'n ofalus ar ymagweddiadau blaengar ac arlosol tuag at ddysgu (e.e. modylau Dysgu ar Waith).
4. Ychydig o werthuso sydd wedi bod ar yr effaith a gaiff dysgu yn y gweithle, ond mae astudiaeth ym Mhrifysgol Morgannwg wedi dangos fod myfyrwyr sy'n cwblhau lleoliad gwaith mewn astudiaethau busnes yn ennill canlyniadau gradd gwell.
5. Drwy greu fframweithiau dysgu drwy/mewn cyflogaeth a phecynau cymorth o ddefnyddiau cefnogaeth, mae sefydliadau yn galluogi staff sy'n cynllunio cyrsiau i fynegi llwybrau cynnydd yn eglur. Mae cyrsiau sy'n cynnwys modylau sydd ag iddynt wahanol lefelau o gredyd, a gaiff eu cyflwyno mewn dulliau hyblyg, yn gweddu i anghenion myfyrwyr sy'n dysgu yn y gweithle a'r gymuned; gall myfyrwyr greu cwricwlwm modylaidd sy'n adlewyrchu eu hanghenion gwaith.
6. Mae yno gyfleoedd i ddatblygu rhaglenni ôl-raddedig yn y gweithle, er enghraifft, i ddiwallu anghenion rheolwyr o fewn y sector gyhoeddus.

## Ymgysylltiad staff ac alumni

1. Mae myfyrwyr yn ymateb yn dda iawn i gael alumni yn ymwneud â mentrau ymgysylltu â chyflogwyr – gall eu profiadau gynnig mwy o hyder i fyfyrwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gyrfaoedd.
2. Mae rhaglenni cyfnewid sy'n caniatáu i staff academiaidd weithio gyda phartneriaid y tu allan i'r sector AU yn darparu cysylltiadau cydweithredol cryf a gwell ddealltwriaeth o anghenion cyflogwyr.

## Sicrwydd ansawdd

1. Mae angen i ansawdd mentora gael ei fonitro a'i werthuso'n ofalus.
2. Ar hyn o bryd, mae'r cyllido sydd ar gael ar gyfer rhai mentrau yn ddibynnol iawn ar ffynonellau byr-dymor megis Cronfa Cydgyfeiriad Cymdeithasol Ewrop, a weinyddir drwy Lywodraeth Cymru. Mae cyllido mwy hir-dymor yn helpu i sicrhau dyfodol mentrau a gall leihau gorlwytho'r mentrau hynny.
3. Drwy ddefnyddio adnoddau addysgol agored megis TELSTAR, 'roedd staff academiaidd angen sicrwydd ynglŷn ag ansawdd defnyddiau a grewyd mewn manau eraill a hefyd materion sy'n ymwneud â hawlfraint.

Mae aelodau o faes gwaith Dysgu mewn Cyflogaeth yn gobeithio fod y daflen hon wedi bod o ddefnydd i chi. Os hoffech chi ddarllen mwy am brofiadau o achredu dysgu yn y gweithle, gallwch fwrw golwg dros gasgliad o astudiaethau achos drwy ddilyn y ddolen ganlynol

[http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning\\_In\\_Employment\\_Welsh.pdf](http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning_In_Employment_Welsh.pdf)

Dr Karen Fitzgibbon  
Arweinydd Maes Gwaith Dysgu mewn Cyflogaeth  
Prifysgol De Cymru  
Ebrill 2013

# Am Gyfeiriadau'r Dyfodol

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i ddarparu myfyrwyr â'r profiad gorau posibl. Golyga hyn weithio'n barhaus i wella ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mewn addysg uwch, gelwir hyn yn 'wella ansawdd' a gall ddigwydd ar lefel prifysgol, adran a chwrs. Mae prifysgolion a cholegau addysg bellach sy'n cynnig addysg uwch yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd ar raglen gwella ansawdd o'r enw 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'.


Mae rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru. Mae prifysgolion, staff, myfyrwyr, colegau addysg bellach ac amrediad o fudiadau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r ymagweddiad hon yn gweithio yng Nghymru oherwydd maint y wlad – mae'n ddigon bach i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol i gyd at ei gilydd, ond yn ddigon mawr i gynnig amrywiaeth eang o brifysgolion a ffyrdd creadigol o wneud pethau. Nod y rhaglen yw gwella meysydd penodol o brofiad dysgu myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion a chreu syniadau ar gyfer blaengarwch mewn dysgu ac addysgu.

Caiff gwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol ei gydlynu gan yr Academi Addysg Uwch, ac mae'n eiddo i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae Cyfeiriadau'r Dyfodol yn gweithredu fesul thema; cyd-weithio ar un maes neu thema benodol ar y tro. Caiff y themâu eu dewis gan y sector addysg uwch, ar gyfer y sector addysg uwch.

Y thema gyfredol yw Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol gyda thri maes gwaith:

- Dysgu er Cyflogaeth
- Dysgu mewn Cyflogaeth
- Myfyrwyr fel Partneriaid

I ddarganfod mwy am fenter Cyfeiriadau'r Dyfodol, gweler: <http://www.heacademy.ac.uk/wales/future-directions>



## Cysylltwch â ni

**Academi Addysg Uwch Cymru**  
**d/o Addysg Uwch Cymru**  
**2 Caspian Point**  
**Ffordd Caspian**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**

**+44 (0) 292 0471 520**  
**wales@heacademy.ac.uk**

© The Higher Education Academy, 2013

Corff cenedlaethol yw'r HEA sy'n gwella dysgu ac addysgu ym maes addysg uwch ar draws y DU. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y system AU i helpu gwneud newidiadau ym maes dysgu ac addysgu er mwyn gwella'r deilliannau i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud hyn trwy gydnabod a gwobrwyo addysgu rhagorol, gan ddod â phobl ac adnoddau at ei gilydd a rhannu arfer gorau, a thrwy helpu i ddylanwadu ar, siapio a gweithredu polisi.

Mae'r HEA yn cefnogi staff addysg uwch trwy gydol eu gyrfa o'r rheiny sy'n newydd ym maes addysgu i'r rheiny sy'n uwch-reolwyr. Rydym yn cynnig gwasanaethau mewn 28 o ddisgyblaethau trwy gydol y DU ac mae gennym swyddfeydd yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Trwy'r tîm rheoli partneriaethau rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau i ddeall sefyllfeydd a blaenoriaethau unigol a dod ag adnoddau at ei gilydd i'w hateb. Mae gwybodaeth, profiad ac arbenigedd gan yr HEA ym maes addysg uwch. Mae ei gwasanaeth a'i hamrywiaeth o gynnyrch yn fwy eang nag unrhyw rai o'i chystadleuwyr, ac mae pobl yn ymddiried yn yr Academi i ddarparu cyraeddiadau system AU mewn partneriaeth gyda'i sefydliadau sy'n cyfrannu.